

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Nos Fercher 15.05.24 - 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presennol: David Griffiths - Cadeirydd (DG), Geraint Edwards – Is Gadeirydd (GE), Huw Davies (HD), Ian Williams (IW), Geraint Micah (GM), Keith Carroll (KC), Jane Lawrence (JL), Nicola Roberts (NR), Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Ethol Cadeirydd ag Is-Gadeirydd Newydd -- Dim newid - oherwydd rhesymau personol nid oedd GE yn gallu cymryd swydd y Cadeirydd drosodd flwyddyn yma, felly gofynnwyd iddo aros fel Is-Gadeirydd. Cynigiwyd swydd y Cadeirydd i'r ystafell, ond ni chymerodd unrhyw un y swydd, felly cadarnhaodd David Griffiths ei fod yn hapus i aros yn y gadair am ail dymor.

Cynnig: KC **Eiliwyd:** GM.

Ethol Cynrychiolwyr y Cyngor: (Pawb oedd yn bresennol yn gytun ynghylch pwy gafodd ei hethol)

a. **Un Llais Cymru** – (I'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf)

b. **Pwyllgor Y Ganolfan** – David Griffiths

c. **Pig yr Allt** – Geraint Edwards

d. **Heddlu Gogledd Cymru** – Ian Williams

Ymddiswyddodd KC fel cynrychiolydd Un Llais Cymru – cynrychiolydd newydd i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

2. **Ymddiheuriadau:** Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Jenny Warne, Megan Griffiths.

2.1 **Datgan Diddordeb:** Dim

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **10.04.24** yn gywir.

Cynnig: KC **Eiliwyd:** GE **Arwyddwyd:** DG.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol:**

a) **Hawl Tramwy Sunbeach:** Rhoddodd JJ y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau gyda GLASS (Green Lanes) a darparodd copïau o'r ddau lythyr a anfonwyd at Gyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Dim ymateb hyd yn hyn.

b) **Ceg yr Afon Gwrl:** Gofynnodd GM a oedd yn gallu tynnu ei ddyfynbris yn ôl ar y sail ei fod wedi dyfynnu'n anghywir ar gyfer disel coch tra bod angen disel gwyn ac ni allai fod yn gystadleuol mwyach. Fe awgrymodd fod y cyngor nawr i edrych i ddefnyddio A&M Lloyd. Gofynnwyd i GM adael yr ystafell tra bod y mater yn cael ei drafod. Cytunodd pawb, a oedd yn bresennol, nad oedd ganddynt unrhyw broblem gyda GM yn tynnu ei ddyfyniad yn ôl ac y dylai JJ cysylltwch ag A&M Lloyd i weld os oedd ei beiriant ef ar gael. Trafodwyd opsiynau o ran pryd fyddai'r amser gorau i wneud y gwaith, ac awgrymwyd Mehefin gan fod y tywydd yn debygol o fod yn well, ac hefyd caniatáu mynediad cerdded i'r traeth i bobl leol ac ymwelwyr trwy gydol misoedd yr haf. Os yw A&M Lloyd ar gael ym Mis Mehefin, yna JJ i roi manylion HD iddo fel y pwynt cyswllt.

Wedi iddo ddychwelyd i'r cyfarfod, bu i GM lenwi ffurflen buddiant personol.

c) **Diffibriliwr:** Dywedodd DG fod Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau fod tâl o £500 am y polyn a'r gwaith gosod. Fodd bynnag, os nad oes gennym y blwch ar yr adeg gosod, bydd tal o £500 pellach ar gyfer cysylltiad ac felly, dylem aros nes bod y blwch wedi ei brynu cyn gofyn i Gyngor Gwynedd i'w osod. O ran codi arian, mae tua £600 wedi ei godi drwy "Just Giving" ynghyd ag ychydig o roddion arian parod, a fydd yn cael eu rhoi i JJ i'w bancio. Mae DG hefyd wedi cael gwybod hefyd, ynghyd â'r blwch mae'n debygol y bydd angen batris a phadiau newydd ar y diffibriliwr. Mae rhai grantiau ar gael a bydd rhaid ymchwilio ymhellach ac gwneud cais am, wedi i DG ddod o hyd i grant arall sydd ar gael yn ddiweddar.

d) **Afon Gwrl/Dŵr Cymru:** Gan nad oes cynnig ysgrifenedig yn ei le, awgrymwyd nad ydym yn trefnu ymweliad safle ar yr adeg hon ac yn lle hynny aros i weld sut y byddant yn symud y mater yn ei flaen.

Mewn perthynas a'r mater gyda'r ras hwyaid a chau'r ffordd, gofynnwyd i JJ e-bostio ei manylion cyswllt i Dŵr Cymru i'w gwneud yn ymwybodol o'r Ras Hwyaid.

5. Gohebiaeth wedi eu derbyn:

- a) **ROSPA** - Derbyniwyd llythyr yn hysbysu am archwiliad blynyddol y Cae Chwarae. Mewn perthynas â mater y matiau diogelwch, dywedodd JJ ei bod wedi gwneud ymholiadau, ond gyda arolygiad arall ar y gorwel, efallai y byddai'n well aros nes bod yr adroddiad newydd wrth law cyn trefnu unrhyw ymweliadau safle.
- b) **Hysbysiad Archwiliad Mewnol** – JJ yn cynghori y bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud hwn ac unwaith fydd popeth wedi'i lofnodi, fe fyddai'r archwiliad yn barod i'w gyflwyno.
- c) **E-bost oddi wrth Pat Griffiths ynglŷn ag Erthygl 4** – mater wedi ei drafod yn fanwl, gyda barn a sylwadau amrywiol am ei dryloywder. JJ i ymateb i Pat a chwblhau ffurflen ymgynghori ar-lein.

6. Materion Cynllunio:

- **NP5/69/98E – Tynnu Cytundeb 106, dyddiedig 16/09/02**, yn cyfyngu meddiannaeth o'r annedd i berson lleol. Mewn trafodaethau manwl, nodwyd gwahaniaeth barn. Teimlad cyffredinol oedd pe ystyriwyd ei fod yn "dai fforddiadwy" yna dylid ei wrthwynebu, ond os na (fel y teimlwyd yn yr achos hwn) yna ni fyddai gwrthwynebiad ffurfiol yn cael ei godi.

7. Adroddiad Ariannol:

- a) **Adroddiad Ariannol ar gyfer 31/03/24 i 19/04/24** - Angen newid y pennawd gan fod y dyddiad yn anghywir. Fel arall cytunwyd fel cyfrif cywir a fe'i chymeradwywyd. Gofynnwyd i JJ neilltuo arian a'u harddangos ar y datganiadau ariannol misol, i adlewyrchu etholiadau, hyfforddiant ac ati.
Cynnig: IW **Eilio:** GE **Arwyddwyd :** DG.
- b) **Cyfrifon y Cyngor Cymuned, Ffurflen Flynyddol 2023-24:**
Wedi'i gweld a gymeradwyo gan bawb oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd angen ychydig o fân newidiadau yn yr Adroddiad Blynyddol, wedyn gallai gael ei gyhoeddi ar y wefan a dogfennau yr archwiliad mewnol a gyflwynwyd.
Cynnig: IW **Eilio:** HD **Ffurflen Flynyddol wedi ei harwyddo:** DG.
- c) **Cyflog a chostau'r Clerc** – Darparodd JJ Ddatganiad Cyflog, diwygiad i'r cod treth, hysbysiad treth a cadarnhad cyflwyniad HMRC. Llofnododd DG y Datganiad Tâl fel un cywir, ac awdurdodwyd y taliad.
- d) **Adnewyddu Polisi Yswiriant y Cyngor Cymuned** – Cadarnhaodd JJ fod adnewyddiad wedi'i dderbyn a'i wirio a bod popeth mewn trefn. Cadarnhawyd y premiwm blynyddol, premiwm treth yswiriant a bod y ffi Weinyddol yn £45. Dyma ydi'r flwyddyn derfynol o'r trefniant tair blynedd a bydd angen adolygu y polisi yn llawn y flwyddyn nesaf.
- e) **Anfonebau i'w talu** – Adnewyddu yr yswiriant fel uchod, dim anfoneb arall.
- f) **Polisi Hyfforddiant** – Cytunodd pawb a oedd yn bresennol nad oedd angen unrhyw newidiadau. Bydd y mater yn Cael ei drafod eto yn y cyfarfod nesaf.
- g) **Polisi Iaith** – Cytunodd pawb a oedd yn bresennol nad oedd angen unrhyw newidiadau.
- h) **Asesiad Risg** – Un newid wedi ei wneud, i'w arwyddo gan y Clerc.
- i) **Cofrestr Asedau** – Dau newid wedi'u gwneud, eu cymeradwyo a'u llofnodi gan DG.
- j) **IRPW** - Cadarnhaodd y tri aelod (nad oedd yn bresennol yng nghyfarfod Mis Ebrill) nad oeddent yn dymuno hawlio y taliadau - £156 a £52 (nwyddau traul) fel y trafodwyd yn flaenorol yn y cyfarfod ym Mis Tachwedd 2023, a cwblhawyd y gwaith papur perthnasol.
Un ffurflen heb ei chyflwyno - DG i fynd a'r ffurflen i MG er mwyn gallu cau'r mater am 23/24.
- k) **Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd** – Angen ychydig o fân newidiadau, a'u cymeradwyo, wedyn yn barod i'w roi ar y wefan a'i gyflwyno fel rhan o'r archwiliad.

8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:

Roedd GE a KC wedi mynychu cyfarfod Un Llais Cymru yn ddiweddar yn Nolgellau. Y siaradwyr gwadd oedd cynrychiolwyr o “Llais”, sefydliad annibynnol sy'n helpu pobl yng Nghymru i gael dweud eu dweud am eu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Dywedodd KC mai'r materion a drafodwyd oedd:

- **Ambiwlans Awyr Cymru** – cadarnhawyd na fydd unrhyw newidiadau yn digwydd cyn 2026.
- **Rheilffordd Arfordir y Cambrian** – mae'r toriadau arfaethedig i'r gwasanaeth eto i'w penderfynu. O ran y ddau bwynt uchod, argymhellodd Un Llais y dylai cymaint o bobl a phosib geisio llofnodi y ddeisebau ar-lein i atal newidiadau yn y gwasanaethau yma.

- Dywedodd cynrychiolydd “Llais” fod nifer o fferyllfeydd “Rowlands” yn debygol o fod yn cau yn y dyfodol, ond fod “Llais” yn edrych ymhellach i mewn i hyn a'r effaith fydd hyn yn cael ar gymunedau lleol.

9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol: Ddim yn bresennol.

10. Unrhyw Fater Arall:

- Soniodd KC fod twll mawr ar yr ochr dde y ffordd i'r set uchaf o oleuadau traffig ar rhiw Friog. Gan fod cerbydau'n stopio ar, neu ychydig dros y llinell wen, reit aml, mae'n bosibl iawn y bydd cerbydau mwy yn difrodi ei cerbyd. Penderfyniad - JJ i ysgrifennu at Adrian Williams, Adran Ffyrdd yng Nghyngor Gwynedd ynglŷn â hyn.
- Crybwyllodd DG ei fod wedi derbyn nifer o gwynion gan drigolion Gwastadgoed ynghylch ceir yn parcio yn reolaidd yn mynedfa'r ffordd i mewn ag allan o'r stad Gwastadgoed, Llwyngwrlil. Penderfyniad - JJ i ysgrifennu at Heddlu Gogledd Cymru ag at Adran Ffyrdd Cyngor Gwynedd.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 12.06.24 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwrlil

Arwyddwyd

Cadeirydd Dyddiad